



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref RE/39/2019

Rhun ap Iorwerth AC
rhun.apiorwerth@cynulliad.cymru

27 Tachwedd 2019

Annwyl Rhun,

Yn ystod dadl Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 16 Hydref 2019, cyfeirioch at y camau y mae Llywodraeth Seland Newydd a Llywodraeth yr Alban wedi'u cymryd mewn perthynas â llesiant, gan ofyn a oes cais wedi'i wneud, neu gwahoddiad wedi'i estyn i Lywodraeth Cymru ymuno â chynghrair lesiant ryngwladol.

Yn 2018, sefydlodd llywodraethau yr Alban, Gwlad yr Iâ a Seland Newydd rwydwaith o Lywodraethau Economi Llesiant (*Well-being Economy Governments* (WEGo)). Menter yw hon sy'n galluogi llywodraethau i ymgysylltu, rhannu a hyrwyddo arloesedd wrth lunio polisiâu er mwyn sicrhau lefelau uwch o lesiant, drwy eu hagendâu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Llywodraeth yr Alban sy'n cynnal ysgrifenyddiaeth y grŵp ar hyn o bryd. Mae aelodaeth y grŵp wedi tyfu'n naturiol drwy rwydweithiau sy'n bodoli eisoes rhwng llywodraethau yr Alban, Seland Newydd a Gwlad yr Iâ, a byddai'r grŵp yn croesawu llywodraethau eraill sy'n rhannu diddordeb yn y maes hwn, i gymryd rhan. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw broses ffurfiol o estyn gwahoddiad i ddod yn aelod o'r grŵp, ond mae disgwyl i Lywodraethau sy'n dymuno ymuno ymrwymo i fodloni amcanion y grŵp, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd blynyddol a Labordai Polisi i rannu profiad ac arbenigedd.

Gan ystyried profiad Llywodraeth Cymru o lesiant drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae swyddogion wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fenter o'r cyfnod cynnar, ac rydym wedi bod yn dilyn ei datblygiad ers hynny. Aeth swyddogion Llywodraeth Cymru i ddigwyddiad cyn y lansiad ym mis Medi 2018 yn yr Alban, ond nid oeddent yn bresennol yn y lansiad yn nigwyddiad Fforwm Byd yr OECD yn Ne Korea ym mis Tachwedd 2018. Cynhaliwyd Labordai Polisi cyntaf WEGo ym mis Mai 2019, lle daeth gweithgor bach o swyddogion ynghyd i rannu profiadau, gan ganolbwyntio ar gydweithio i ddatblygu atebion ymarferol y gellid eu ehangu. Er nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol, roeddwn yn falch o weld bod papur yr OECD ar fabwysiadu dull gweithredu llesiant o fewn llywodraeth ganolog wedi cael ei rannu gyda'r rhai a oedd yn bresennol, a bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael sylw. Rwyf ar ddeall nad ydym wedi derbyn gwahoddiad ffurfiol gan WEGo i ddod yn aelod o ystyried ei natur organig, ac nad ydym

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ychwaith wedi gwneud cais ffurfiol i ymuno, ac eithrio ein hymgysylltiad parhaus â swyddogion o Lywodraethau yr Alban a Seland Newydd. Fodd bynnag, ar ôl cael fy mriffio ar fanteision y rhwydwaith, byddaf yn ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru fod yn aelod mwy gweithredol fel bod modd i ni rannu ein profiad, ac wrth gwrs, ddysgu gan eraill.

Bydd ein gwaith gyda menter WEGo yn cyd-fynd â'n partneriaethau rhyngwladol eraill megis Regions4SD (Rhanbarthau ar gyfer Datblygu Cynaliadwy), sy'n dod â gwahanol leoedd ynghyd gan gynnwys ardal y Basg, Catalonia, Rio de Janeiro a Quebec i rannu'r hyn sydd wedi'i ddysgu am sut i weithredu'r agenda Datblygu Cynaliadwy.

Mae ein trafodaethau gyda'n swyddogion cyfatebol yn Llywodraethau yr Alban a Seland Newydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth i ni fwrw ymlaen â pharatoadau ar gyfer cyllideb 2020-21. Mae ein swyddogion yn parhau i weithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn ymwreiddio ymhellach egwyddorion y Ddeddf yn y gwaith o gynllunio'r gyllideb. Yn benodol, rydym yn datblygu Cynllun Gwella'r Gyllideb i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2020-21. Bydd y Cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth, gan gynnwys ein huchelgeisiau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolog, i wella proses y gyllideb yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mewn perthynas â'r gwaith yn yr Alban ar eu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, mae Deddf Grymuso Cymunedau (yr Alban) 2015 [*Community Empowerment (Scotland) Act 2015*] yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban bennu canlyniadau ar gyfer yr Alban. Yma yng Nghymru, aethom gam ymhellach, a chytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ganlyniadau i Gymru drwy'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, tra bod fframwaith perfformiad yr Alban yn cynnwys 11 o ganlyniadau cenedlaethol ac 81 o ddangosyddion cenedlaethol, yng Nghymru mae gennym 7 o ganlyniadau cenedlaethol (y nodau llesiant) a 46 o ddangosyddion cenedlaethol¹ rydym yn adrodd arnynt yn flynyddol drwy adroddiad Llesiant Cymru. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r adroddiad hwn ym mis Medi 2019². Mae sicrhau bod y nodau llesiant cenedlaethol yn cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer y canlyniadau hyn er mwyn llywio dyfodol Cymru, ac mae llesiant wrth galon hyn.

Mae'r gyfres o ddangosyddion cenedlaethol yn darparu mesuriad cynhwysfawr o nifer o'r materion sy'n bwysig i lesiant pobl, gan gynnwys amrywiaeth o fesurau goddrychol a gwrthrychol. Mae'r dangosyddion cenedlaethol yn rhoi ffocws clir ar ganlyniadau i Gymru, ein dinasyddion a'n cymdeithas - nid allbynnau a mewnbynnau - ac mae'r 46 o ddangosyddion yn adlewyrchu hyn. Er enghraifft, mae'r dangosyddion cenedlaethol yn mesur agweddau megis unigrwydd, lles meddyliol, ymddygiadau iach, boddhad â'r ardal leol, a ph'un a yw pobl yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol. Mae'r dangosyddion hyn yn mynd y tu hwnt i ddefnyddio Cynnyrch Domestig Gros (GDP) fel mesur o gynnydd, oherwydd yng Nghymru, mae lles ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant yn bwysig i ni, ac mae'r cyfan hyn, yn y pen draw, yn effeithio ar lesiant unigolion.

¹ https://llyw.cymru/llesiant-cymru-adroddiadau-cynnydd-yn-erbyn-y-nodau-llesiant?_ga=2.263355596.1333838272.1574855839-283766726.1548160944

² https://llyw.cymru/llesiant-cymru-2019?_ga=2.263355596.1333838272.1574855839-283766726.1548160944

Byddwn yn hapus i'm swyddogion roi brîff technegol i chi ar y materion uchod os ydych yn dymuno.

Rydw i hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Sophie Howe (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans". The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Cc : Sophie Howe (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)